| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **27 MEDI 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **POLISI I RWYSTRO TWYLL A LLYGREDD: ADRODDIAD AR 2009-10 A 2010-11** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADOLYGU'R GWAITH YN Y MAES HWN** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENAETHIAID GWASANAETH – CYLLID AC ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU :** | **DIM** |

## 1. RHAGARWEINIAD

Dan bolisi'r Cyngor ar atal Twyll a Llygredd mae'n rhaid cyflwyno arolwg blynyddol ac adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiad yma'n cynnwys gweithgareddau yn y maes hwn yn 2009-10 a 2010-11. Ni chyflwynwyd adroddiad y llynedd ar gyfer 2009-10. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â:-

- **Twyll:** "unigolyn(ion) yn mynd ati'n fwriadol i ystumio datganiadau cyllidol neu gofnodiadau y tu mewn i'r awdurdod a'r tu allan iddo gyda golwg ar guddio ymdrechion i gamddefnyddio asedion neu sicrhau math arall o fudd".

- **Llygredd:** "cynnig, rhoddi, gofyn am neu dderbyn anogaeth neu gydnabyddiaeth a allai ddylanwadu ar yr hyn a wna unigolyn arall".

- **Dwyn:**

- **Peidio â datgelu** diddordeb: pa un ac ydyw hwnnw'n golygu budd ariannol ai peidio.

Y rhain yw egwyddorion allweddol y polisi ynglŷn â thwyll a llygredd :-

- Lleihau'r cyfleon;
- Rhwystro;
- Atal;
- Canfod ac Ymchwilio;
- Erlyn a Hawlio'n ôl.

Mae'r egwyddorion hyn yn seiliedig ar:-

- Diwylliant ac Ymwybyddiaeth.

## 2. LLEIHAU CYFLEOEDD A RHWYSTRO

Sylfaen y polisi hwn yw atal twyll, llygredd neu ladrad rhag digwydd yn y lle cyntaf. At ei gilydd gwneir y gwaith hwn trwy fynd ati'n rheolaidd i weithredu ar reolaethau ariannol, a chan gynnwys cynnal gwaith siecio mewnol a hefyd trwy wahanu dyletswyddau. Mae'n amhosib cyflwyno adroddiadau'n systematig ar rwystro; nid oes ystadegau ar gael ynghylch beth sydd heb ddigwydd. Fodd bynnag, rhoddir sicrwydd i Aelodau ar effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol gan Archwilio mewnol ac allanol a chan farnau sicrwydd trydydd partïon

arall. Mae Archwilio Mewnol yn adrodd i bob Pwyllgor Archwilio ar gynnydd yn cynnwys asesiad parhaol ar y system rheolaeth fewnol o arolygon a gymerwyd yn ystod y cyfnod. Rhoddir barn ar y fframwaith rheolaeth fewnol yn flynyddol fel rhan o'r Adroddiad Llywodraethu gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid).

Dyma dair enghraifft sy'n dangos y dull o weithio:-

**(i)** Mae gwaith rhagweithiol yn ymwneud â darparu a monitro adroddiadau ar daliadau dyblyg ac adolygiadau yn cynnwys cymodi adroddiadau'r sefydliad i gyflogau, yn cael eu defnyddio i adnabod afreoleidd-dra sy'n cael eu dilyn i fyny wedi hyn. Mae gwaith o'r fath yn ychwanegiad i'r system rheolaeth fewnol ac yn cael ei ddefnyddio fel rheolaeth gadarn dros y gweithgareddau priodol.

**(ii)** Mae awdurdodau lleol yn genedlaethol yn dioddef oherwydd y diwylliant o gyflwyno hawliadau - mewn diwylliant o'r fath mae anogaeth i'r cyhoedd, dan drefniadau 'dim llwyddiant dim ffi', gyflwyno hawliadau am anafiadau personol gyda golwg ar gael iawndal. Llwyddwyd i drechu cwmnïau hyrwyddol trwy gyflwyno trefniadau cadarnach i ddelio gyda hawliadau drwy basio'n brydlon i'r yswirwyr hawliadau iddynt ymchwilio fel yn briodol a thrwy ddelio'n brydlon gyda hawliadau y mae tystiolaeth iddynt ond gwrthod y gweddill.

**(iii)** Yn anffodus mae casglu a bancio arian parod yn rheolaidd yn temtio rhai i "roi yma - cymryd acw" a hynny yn y pen draw yn arwain at ddwyn. Trwy gymryd gofal a chadw golwg ar batrymau bancio, y nod yw cywiro pethau cyn i unrhyw golledion ddigwydd: gall adnabod bancio'n hwyr ddod drwy'r Tîm Incwm neu drwy adolygiaeth rheolwyr o benawdau cyllideb incwm neu fel rhan o adolygiad sicrwydd trydydd parti. Ar ôl adnabod hyn, mae dilyn y mater i fyny gyda'r staff perthnasol yn helpu i atal a darganfod dwyn. Ni adnabyddwyd unrhyw achos o'r fath yn ystod cyfnod yr adroddiad yma.

## 3. CANFOD, YMCHWILIO AC ERLYN

Gall amheuon godi o sawl ffynhonnell ynghylch dwyn gwirioneddol neu dwyll. Efallai y bydd staff yr awdurdod yn dod ar draws pethau o'r fath trwy waith gweinyddol o ddydd i ddydd, efallai hefyd y dônt i'r amlwg oherwydd rhywun mewnol/allanol yn rhannu pryderon megis trwy ddefnyddio'r llinell barod ar gyfer twyll budd-daliadau, efallai y'u hadnabyddir gan staff adolygu a chydymffurfiaeth y Cyngor neu efallai y byddant yn dod i sylw'r awdurdod hwn trwy asiantaethau eraill neu'r cyhoedd.

Beth bynnag fo natur yr amheuon, bydd raid i'r ymchwiliadau gyfateb i'r difrifoldeb, rhaid iddynt fod yn gyfrinachol a hefyd yn deg. Weithiau gall amheuon neu haeriadau fod yn rhai drygionus neu godi oherwydd camgymeriadau; ond rhaid, fel egwyddor o'r pwys mwyaf, dybio bod rhywun yn ddieuog ac nid yw pob achos o ymchwilio yn arwain at ddrwgweithred.

Un o'r prif ffactorau tra'n penderfynu ar atgyfeiriad ac ymchwiliad llwyddiannus yw ansawdd y wybodaeth a ddarperir. Pan dderbyniwyd atgyfeiriadau dienw yn cynnwys honiadau ond heb dystiolaeth, yn amlwg fod y tebygrwydd o gynnal ymchwiliad llwyddiannus yn lleihau. Yn y pen draw, mae datganiadau o'r fath yn wrthgynhyrchiol gan eu bod yn ailgyfeirio adnoddau prin ymchwilio'r Cyngor.

Gweler hyn yn 2010/11 lle atgyfeirwyd 414 achos o dwyll Budd-daliadau posibl yn ymwneud â budd-daliadau Tai/Treth Cyngor, gyda 320 yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer ymchwil. O'r 320 achos, 41 roedd hefo'r canlyniad o ryw fath o gosb ffurfiol ac adnabyddwyd £165,023 o ordaliadau budd-dal gan adain Atal Twyll Budd-daliadau'r Cyngor.

Yn achos twyll budd-daliadau mae'r polisïau erlyn a sefydlwyd yn cynnwys nifer o gosbau a'r rheini yn caniatáu i ni ymateb yn ôl difrifoldeb. Ar waelod y raddfa mae rhybudd neu gosb weinyddol yn aml yn ddigon i amlygu difrifoldeb y twyll a hefyd i sicrhau na fydd yn digwydd eto. Ond mae'r awdurdod yn berffaith barod i erlyn twyllwyr mewn achosion difrifol. Mae'r tabl isod yn dangos y fath a'r nifer o'r cosbau a roddwyd allan yn 2009/10 a 2010/11 :

| | Erlyniad | | Cosb Weinyddol | | Rhybudd | | Gordaliad budd-dal |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2010-11 | 8 | | 7 | | 26 | | £165,023 |
| 2009-10 | 7 | | 11 | | 19 | | £178,103 |

Yn ychwanegol i'r ymchwiliadau ac atgyfeiriadau'n ymwneud â Budd-daliadau, roedd wyth ymchwiliad yn ymwneud ag honiadau o dwyll neu ddrwgweithredu arall a roddwyd gwybod amdanynt i Archwilio Mewnol. Yn ystod yr ymchwiliadau i'r honiadau yma, darganfyddwyd tystiolaeth o reolaeth fewnol gwan yn rhai achosion. Hefyd, darganfyddwyd tystiolaeth bositif fod twyll a llygredd yn cymeryd lle mewn dau allan o'r wyth achos.

Darganfyddwyd tystiolaeth gan ymchwiliad Archwilio Mewnol oedd yn cefnogi arddeliadau rheolwyr fod amserlenni, yn cynnwys rhai goramser, wedi eu cyflwyno ar gyfer amser na weithiwyd. Diswyddwyd y gweithiwr perthnasol ac rydym wrthi'n adennill yr arian yn weithredol. Mewn achos arall, cyflwynodd gweithiwr ffurflen newid manylion banc ar gyfer gweithiwr arall, gan gynnwys manylion banc eu hunain, gyda'r canlyniad fod taliad anghywir wedi ei wneud. Canlyniad yr ymchwiliad Archwilio Mewnol oedd atgyfeiriad i'r Heddlu. Cyfwelwyd y gweithiwr gan yr Heddlu, ond ni chyhuddwyd. Yn dilyn hyn, cymerodd y Cyngor gamau i adennill yr arian.

Mae un ymchwiliad yn ymwneud ag hawliad grant yn ystod y cyfnod yn parhau ac erbyn hyn yn cael ei ymchwilio gan yr Archwiliwr Allanol.

Mae manylion y gwaith ymchwilio a nodir uchod yn dystiolaeth o ymrwymiad y Cyngor i ymchwilio atgyfeiriadau ac i gymryd y camau priodol pan adnabyddir drwgweithredu neu dwyll a llygredd.

Manylir yn y tabl isod y gordaliadau a adnabyddir drwy fath yr atgyfeiriad :-

| | **2010/11** | | **2009/10** | |
|---|---|---|---|---|
| **Ffynhonnell** | **Achosion** | **Gordaliad** | **Achosion** | **Gordaliad** |
| Swyddogion Ymweld | 9 | £17,559.98 | 14 | £7,954.89 |
| Staff Budd-daliadau Tai | 2 | £1,695.03 | 8 | £10,338.65 |
| Treth Cyngor/Ad-ennill | 2 | £1,782.00 | 2 | £6,744.91 |
| Di-enw | 1 | £6,857.41 | 1 | £36,209.39 |
| DWP | 3 | £12,951.57 | 3 | £17,483.07 |
| HBMS | 14 | £11,240.71 | 8 | £12,332.42 |
| NFI | 4 | £32,534.74 | 0 | £0.00 |
| Arall | 1 | £1,884.02 | 1 | £1,676.24 |

**Darpariaeth colli budd-daliadau** - o Ebrill 2010 cyflwynodd y DWP "Darpariaeth colli budd-daliadau" a adnabyddir yn amlaf fel "un trawiad". Achosion yw'r rhain lle mae'r hawlydd wedi cael cosb lwyddiannus gan un ai'r adain dwyll y Cyngor neu dîm ymchwil y DWP a phan fo'r drosedd wedi ei chyflawni ar ôl Ebrill 2010, wedyn bydd yr hawlydd budd-dal yn colli rhywfaint o fudd-dal am gyfnod o 4 wythnos ar ôl i'r achos twyll gael ei ddelio ag o. Oherwydd natur y criteria ar gyfer y ddarpariaeth yma, ni weithredwyd ar unrhyw achosion yn ystod y flwyddyn ariannol Fodd bynnag, rhagwelir bydd hyn yn newid yn ystod y flwyddyn 2011/12 a chedwir cofnod o'r rhain.

## 4. MENTER TWYLL GENEDLAETHOL (NFI)

Yn ystod rhan ddiwethaf 2010/11 cymerodd yr Awdurdod ran unwaith eto yn y Fenter Twyll Genedlaethol, lle mae rhywfaint o wybodaeth o fewn yr awdurdod yn cael ei fatsio ag awdurdodau eraill. Wrth benderfynu rhyddhau gwybodaeth ar gyfer matsio data, roedd yn angenrheidiol i ystyried os oedd unigolion wedi cael rhybudd teg o'r bwriad i brosesu eu gwybodaeth, yn unol ag egwyddorion diogelu data. Mae'r angen bob tro i gael balans rhwng yr angen i ganfod twyll a'r egwyddorion diogelu data. Mae wedi ei nodi eisoes fod rhywfaint o'r matsio newydd sydd wedi ei gynnwys yn ymarferiad NFI yma, fel matsio Budd-dal Tai yn erbyn awdurdodau talu pensiwn, wedi darparu achosion defnyddiol i'w hystyried. Ni fyddwn yn gwybod canlyniadau'r achosion yma tan y flwyddyn nesa.

Mae cymryd rhan yn yr NFI yn ffordd ragweithiol o adnabod twyll posibl oddi fewn systemau'r Cyngor a rhwng systemau'r Cyngor. Fel gyda phob atgyfeiriad, nid yw'r cyfan yn darparu digon o dystiolaeth o dwyll i warantu ymchwiliad ond pan maent, mae ymchwiliad a gweithrediad priodol yn cael eu cymryd gan y Cyngor.

Yn 2009-10 cafwyd y ffigyrau o'r ymarferiad NFI 2008-09, a dangosodd fod yr atgyfeiriadau o'r NFI 2008-09 a oedd yn ymwneud â'r Cyngor wedi cael y canlyniad fod pedwar person wedi eu herlyn ac adnabyddwyd cyfanswm o £55,261 yng ngordaliadau Budd-dal Tai a'r Dreth Gyngor, gyda £32,535 o ordaliadau Ategiad Incwm ychwanegol (a weinyddir gan y DWP yn hytrach na'r Cyngor). Roedd y cyfan o'r rhain yn ymwneud a phensiynau na roddwyd gwybod amdanynt.

Roedd un achos llwyddiannus angen cysylltiad agos â Swyddogion Ymchwilio Cyngor Sir Ddinbych, lle nad oedd pensiwn y Fyddin wedi ei ddatgan ar hawliad am Fudd-dal Tai a Threth Cyngor. Roedd yr hawlydd, oedd nawr yn byw yn Sir Ddinbych, wedi bod yn byw ar Ynys Môn yn flaenorol gyda'i wraig ar y pryd. Roedd data'r NFI yn dangos, yn ychwanegol i'r pensiwn y Fyddin na roddwyd gwybod amdano, fod pensiwn preifat a ddatganwyd ar yr hawliadau i Ynys Môn ddim yn ymddangos ar yr hawliad i Sir Ddinbych. Canlyniad ymchwiliad ar y cyd oedd gweithrediad yn cael ei gymryd yn erbyn yr hawlydd a'i wraig. (Gweler datganiad i'r wasg yn Atodiad 1).

Adnabyddwyd achos arall pensiynwr a fethodd ddatgan ei phensiwn galwedigaethol o'r GIG. Talwyd y pensiwn yma ers cyn ei hawliadau i fudd-dal yn 1992. Yn dilyn adolygiad o'r achos daeth yn amlwg fod yr hawlydd yma wedi ei chyfweld yn flaenorol yn 2003 gan ei bod wedi methu datgan pensiwn galwedigaethol ei gwr. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, ni chymerwyd unrhyw weithrediad yn ei herbyn y pryd hynny. Fodd bynnag, y tro hwn, fe'i gwelwyd yn y Llys ac fe'i herlynwyd yn Hydref am dderbyn ychydig yn is na £20,000 mewn budd-dal nad oedd ag hawl i'w dderbyn.

Mae'r Awdurdod yn parhau'n ymrwymedig i weithio ar y cyd â chyrff eraill, yn enwedig y Gwasanaeth Ymchwilio Twyll o'r DWP. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, llwyddodd Tîm Twyll Budd-daliadau'r Cyngor i gymryd gweithrediadau cosbi ar y cyd â'r DWP.

Adnabyddwyd un achos o'r fath gan Dîm Twyll Budd-daliadau'r Cyngor ac roedd yn ymwneud a chwpl priod lle'r oedd yn ymddangos fod y wraig, a oedd y prif hawlydd, wedi gwneud datganiadau anghywir tra'n hawlio Budd-daliadau Tai a'r Dreth Gyngor ac Ategiad Incwm. Roedd amheuaeth fod yr hawlydd heb ddatgan pensiwn galwedigaethol ei gwr tra'n cwblhau eu ffurflenni hawlio am y budd-daliadau yma. Fodd bynnag, pan gyfwelwyd yr hawlydd roedd yn glir nad oedd yn ymwybodol o bensiwn ei gwr hyd at ddiwrnod ei chyfweliad dan rybudd.

Penderfynwyd wedyn i gyfweld y gŵr, cyfaddefodd nad oedd yr hawlydd yn gwybod dim am ei bensiwn, gyda'r canlyniad ei fod wedi gadael iddi wneud datganiad anghywir er mwyn hawlio budd-dal, gan wybod yn iawn ei fod angen datgan yr incwm yma a'i fod heb ei ddatgelu yn bwrpasol. Oherwydd methiant y wraig i ddatgelu pensiwn ei gwr, darganfyddwyd eu bont wedi eu gordalu £32,534.74 yn Ategiad Incwm. Nid oedd y pensiwn yma'n effeithio ar ei Fudd-daliadau Tai a Threth Cyngor. Fodd bynnag, gan ei fod yn fwriadol wedi caniatáu i ddatganiadau anghywir gael eu gwenud tra'n hawlio Budd-daliadau Tai a Threth Cyngor, cynigwyd Rhybudd Ffurfiol iddo a fe'i derbyniodd. Erlynwyd ef gan y DWP yn llwyddiannus am ei dwyll Ategiad Incwm.

Gobeithir am lwyddiant tebyg, neu'n well, pan roddir gwybod am ganlyniadau NFI 2010-11.

## 5. MATSIO DATA BUDD-DALIADAU TAI

Mae'r awdurdod yn parhau'n ymroddgar i wneud ei ddyletswydd o ymchwilio atgyfeiriadau drwy'r ymarferiad Matsio Data Budd-dal Tai (HBDMS), achosion yw'r rhain lle adnabyddwyd anghysondeb drwy fatsio data Budd-daliadau Tai a'r Dreth Gyngor yn erbyn data y DWP a'r HMRC – mae hyn yn cynhyrchu atgyfeiriad sydd angen ei ymchwilio gyda'r canlyniad posibl o achos twyll.

Yn 2009-10, atgyfeiriwyd 8 achos ar gyfer ymchwiliad o'r HBMS, gyda gordaliad adnabyddedig o £12,332.42. Roedd 14 achos yn 2010-11, gyda gordaliad adnabyddedig o £11,240.71.

## 6. HAWLIO'N ÔL

Pan fo'n bosib ein nod bob amser yw hawlio gwerth yr arian a ddwynwyd yn ôl neu werth yr arian y twyllwyd yr awdurdod ohono. Canlyniad y ddau ymchwiliad Archwilio Mewnol a nodwyd uchod oedd adennill arian yn ôl gan y gweithwyr perthnasol. Mae'r tîm Twyll Budd-daliadau wrthi'n adennill y £55,261 o ordaliadau budd-dal a adnabyddwyd o NFI 2008/09 a gordaliadau a adnabyddwyd o atgyfeiriadau yn mynd yn eu blaenau'n fewnol yn ystod y flwyddyn.

£165,023 oedd y cyfanswm ar gyfer 2010/11 o'r gordaliad Budd-dal Tai a'r Dreth Gyngor a adnabyddwyd drwy ymchwiliadau twyll. £178,103 oedd y cyfanswm ar gyfer 2009-10. Mae'r awdurdod yn cymryd pob cam i adennill y swm o'r budd-dal a gordalwyd a adnabyddir.

## 7. ATAL

Y dull pennaf sydd gan yr awdurdod o atal lladron a thwyllwyr yw rhoddi neges glir i bawb ein bod yn hynod o ofalus a gwyliadwrus. Pan fo pobl yn gweld bod eu manylion yn cael eu gwirio a'u siecio yna mi fyddant yn hynod wyliadwrus cyn cyflawni twyll.

Mae rhoddi cyhoeddusrwydd sylweddol i ganfod achosion o dwyll ac erlyn troseddwyr yn ffordd dda o godi proffil y gwaith hwn ac atal twyll. Yn ystod 2009-10 a 2010-11 rhyddhaodd yr awdurdod hwn ddatganiadau i'r wasg ar waith erlyn llwyddiannus a gafodd le amlwg yn y wasg leol. Mae cyhoeddi achosion erlyn o'r fath yn cael ei ystyried fel twlsyn cyhoeddusrwydd gwerthfawr sy'n cynhyrchu rhagor o achosion sy'n haeddu ymchwiliad ac yn atal eraill efallai byddai'n ystyried rhoi ymlaen hawliadau twyllodrus.

Atodir esiamplau o 3 datganiad i'r wasg er gwybodaeth - Atodiadau 1 - 3 (Darnau o'r Datganiadau i'r Wasg eisoes allan i'r cyhoedd ac ar gael drwy ein safle wê).

## 8. DIWYLLIANT AC YMWYBYDDIAETH

Mae’r cyhoeddusrwydd a roddwyd i waith gwrth-dwyll ac erlyniadau llwyddiannus yn gymorth i feithrin diwylliant gwrth-dwyll y tu mewn i’r awdurdod. Mae diwylliant gwrth-dwyll cadarnhaol yn rhan o lywodraethu corfforaethol da. Efallai y bydd adroddiadau negyddol yng nghyswllt arolygon llywodraethu corfforaethol yr awdurdod a’r cyhoeddusrwydd a roddwyd i’r adroddiadau hynny yn creu’r argraff ein bod yn llugoer ynghylch twyll a llygredd, ond nid felly y mae pethau o angenrheidrwydd. Efallai y bydd cyhoeddusrwydd drwg yn annog rhai pobl i wneud haeriadau, ond pan fo haeriadau o’r fath heb ddim tystiolaeth yn sail iddynt yna ni ellir profi bod twyll na llygredd wedi digwydd. Mae ymchwiliadau i haeriadau sy’n ddi-sail yn tanseilio hyder ac mae’n bur anodd ceisio gwella’r diwylliant mewn cyfnod o wrthdaro.

## 9. SEFYDLIAD PELLACH ATAL TWYLL A LLYGREDD

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2011, penderfynodd y Pwyllgor Archwilio i ddefnyddio’r rhestr wirio “Rheoli Risg o Dwyll -Gweithrediadau i Atal Twyll a Llygredd” i fesur cydymffurfiaeth y Cyngor gydag ymarferion da, fel y cynhwysir yn y ddogfen yma. Bydd y Pwyllgor Archwilio’n trefnu Gweithgor yn 2011-12 i’r perwyl yma. Lle ystyrir nad yw’r Cyngor yn cydymffurfio’n llawn gyda’r rhestr wirio ymarferion da, cynhyrchir cynllun gweithredu ar gyfer gwelliant, a phennir gweithrediadau i weithwyr perthnasol i’w dilyn i fyny.

Bwriad yr ymarferiad yma yw i sefydlu ymhellach weithrediad a diwylliant Atal Twyll oddi fewn y Cyngor.

## 10. ADOLYGU’R POLISI

Cafodd Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd yr awdurdod ei adolygu diwethaf yn 2007, ac, o’r herwydd, mae angen ei adolygu a’i ddiweddaru. Gwneir hyn yn dilyn canlyniadau’r Gweithdy Atal Twyll a gymerir lle yn 2011/12.

**JOHN FIDOE**
**PENNAETH GWASANAETH (ARCHWILIO)**

**EINIR WYN THOMAS**
**PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)** **20 MEDI 2011**